Glyn Nest BAPTIST HOME

Cylchlythyr
Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf 2015

CARTREF Y BEDYDDWYR GLYN NEST - GOFALU YN EIN CYMUNED

# *Pen-blwydd Hapus Glyn Nest yn 45 mlwydd oed*

Croeso i gylchlythyr yr haf. Dyma gyfle arall i'n deiliaid, eu teuluoedd, ffrindiau a'r gymuned leol gael cipolwg ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y cartref yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae hon yn flwyddyn arbennig iawn i Glyn Nest, oherwydd mae'r cartref wedi bod yn darparu gofal i'r henoed yng Nghastellnewydd Emlyn a'r gymuned gyfagos ers 45 o flynyddoedd.

Mae'n gamp heb ei hail ac yn achos dathlu. Ond mae hefyd yn amser i adfyfyrio, a chofio am ddeiliaid y gorffennol nad ydynt bellach yn ein plith, ond a erys yn annwyl ac yn fyw yn ein cof a'n meddyliau.

Edrychaf ymlaen at eich croesawu i gyd i'n 'Diwrnod Agored' blynyddol ym mis Awst, a diolchaf i bawb am eu cefnogaeth ddiflino.

Jayne Evans – Rheolwraig

## YN Y RHIFYN HWN

Gweithgareddau i'r Deiliaid........ 2

Taith Haf Flynyddol....................3

Newyddion arall........................3

Materion Staffio........................ 4

Hanes Cartref Gofal y Bedyddwyr Glyn Nest ................................ 5

Ac yn olaf... ............................... 6

## Parchedig Judith Morris

Pen-blwydd Hapus Glyn Nest yn 45 mlwydd oed!

Cyfarchion oddi wrth Undeb Bedyddwyr Cymru. Ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru dymunaf Ben-blwydd Hapus iawn i Glyn Nest yn 45 mlwydd oed.

Gyda threigl y blynyddoedd, gwell gan lawer ohonom anghofio am ein pen-blwyddi, ond achlysuron digon nodedig ydynt serch hynny. Onid y cyfryw achlysuron a rydd gyfle i ennyn gwên ar wyneb wrth i ni forio canu *Pen-blwydd Hapus*, ac onid braf yw gallu rhannu'r llawenydd mewn dathliad o'r fath?

Gobeithio'n wir y bydd llawenydd mawr yng Nghastellnewydd Emlyn, a ledled Cymru, wrth i Glyn Nest ddathlu'r garreg filltir nodedig hon yn ei hanes. Rwy'n sicr y bydd y rhai hynny a fu'n gysylltiedig â Glyn Nest dros y blynyddoedd yn ymuno gyda ni wrth i ni fwrw trem yn ôl at yr adeg pan wireddwyd breuddwyd mudiad chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru ac yr agorwyd y cartref.

Pedwar deg pum mlynedd yn ddiweddarach, byddent yn hynod falch o'r hyn a gyflawnwyd ers i'r drysau gael eu hagor am y tro cyntaf.



Tra bo'r pen-blwydd arbennig hwn felly yn estyn cyfle i ni ddathlu, mae hefyd yn achlysur i ddiolch yn ddiffuant i bawb a fu'n ymwneud â'r cartref dros y blynyddoedd mewn amryfal ffyrdd ac sydd wedi gweithio'n ddiflino i wella'r cyfleusterau yno.

Diolchwn i holl aelodau'r staff a fu'n cydweithio'n ddyfal fel tîm i ddarparu gofal o'r safon uchaf i'r deiliaid ynghyd ag asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r cartref; diolch i'r rhai sydd wedi rhoi o'u hamser yn hael i godi arian i Glyn Nest ac i'r rhai sy'n gofalu am y cyllid; y rhai a fu'n ymweld â'r deiliaid yn rheolaidd, yn cynnwys gweinidogion ac aelodau capeli a fu'n cynnal gwasanaethau yn y cartref; y rhai a fu'n cadeirio ac yn gwasanaethu ar y pwyllgorau gan sicrhau bod y cartref wedi cydymffurfio â'r newidiadau cyson mewn deddfwriaeth.

Ac yn olaf diolchwn i'r deiliaid a'u teuluoedd ac am y fraint o fod yn rhan o deulu Glyn Nest.

Bendith arnoch a phen-blwydd hapus yn 45 oed!

Parchedig Judith Morris

# *Gweithgareddau i'r Deiliaid*

## Charleston Charlies Oscar Barnhart

Ym mis Ebrill, cafodd deiliaid Glyn Nest gyfle i fwynhau adloniant y Charleston Charlie**s**, sef deuawd a fu'n perfformio *pastiche* bywiog o gerddoriaeth y 20au a'r 30au, a hynny'n briodol mewn cymeriad a gwisg.



Gan ddefnyddio amrywiaeth helaeth o hetiau a wigiau, ynghyd ag offerynnau cerddorol buont yn canu a chwarae'r hen ffefrynnau yn arddull blŵs, jazz a swing.

Dyma brynhawn o gerddoriaeth fywiog oedd wrth fodd calon y deiliaid, a mynegwyd eu diolch diffuant iddynt gan Freda Pierce.



Mae'r Charleston Charlies yn gweithio gydag elusen 'Cerddoriaeth mewn Ysbytai', sy'n darparu cyfle i berfformwyr proffesiynol gyflwyno cerddoriaeth fyw mewn lleoliadau iechyd a gofal ledled y DU.

**Music in Hospitals**

*Creating joy through live music*

## Mwynhau heulwen y prynhawn



Pan fo'r haul allan, felly hefyd y deiliaid!!



Rydym yn gobeithio y bydd ein 'gardd synhwyrau' yn barod erbyn yr haf nesaf er mwyn i'r deiliaid fedru treulio amser ynddi.

## Taith Ddirgel a The yng Ngwesty'r Cliff



Ein tywys i lan môr Llangrannog ac ar hyd y ffordd arfordirol i Dresaith ac Aber-porth a wnaeth ein taith ddirgel ym mis Mai cyn cyrraedd Gwesty'r Cliff yng Ngwbert.

Gan ryfeddu at y golygfeydd godidog ar draws Bae Ceredigion, cafodd y deiliaid gyfle i fwynhau te prynhawn a chacennau cartref blasus yn y gwesty hwn.

## Picnic prynhawn ar y fferm – Cantorion All Sorts



Awyr iach, heulwen braf, sgons a hufen a morio canu.

Dyma oedd y cynhwysion perffaith ar gyfer ein hymweliad â fferm Brenda a Derrick i fwynhau picnic haf yng nghwmni Cantorion All Sorts.

## Côr Ysgol Gynradd Llandysul



Bu disgyblion Ysgol Gynradd Llandysul yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Caerffili yn ddiweddar a gwerthfawrogwn eu parodrwydd i ymweld â Chartref Glyn Nest wedi hynny.

Heledd Dafydd, y Pennaeth oedd yn eu harwain a Miss Leah Slaymaker yn cyfeilio iddynt. Cafwyd perfformiadau clodwiw ganddynt, yn unawdwyr a chôr.

Marie Griffiths, aelod o staff Glyn Nest a ddiolchodd iddynt, a hithau'n fam falch i Bethan, un o aelodau'r côr.



# *Taith Haf Flynyddol*

Roeddem yn ffodus iawn o gael awyr las a thywydd braf ar gyfer taith haf flynyddol Glyn Nest.

Dewis y deiliaid oedd ailymweld â lleoliad a fu'n gyfrwng mwynhad yn y gorffennol, sef Fferm Folly yn sir Benfro



Dechreuodd y diwrnod yn gynnar, a thrwy gydweithrediad staff yr hwyr a'r bore sicrhawyd bod y deiliaid oedd yn mynd ar y daith yn barod, a bod y rhai oedd yn aros yn y cartref yn derbyn pob gofal a chysur yn y lolfeydd.



Roedd dau fws mini 'Dolen Teifi' yn llawn dop – yn ddeiliaid brwd, staff, perthnasau a ddaethant yn gwmni i'r deiliaid, cadeiriau olwyn a bwyd

Pan gyrhaeddwyd Fferm Folly gwelwyd pawb yn mwynhau'r cinio picnic blasus a baratowyd gan Tracy ac Olwen, cyn dechrau ar eu ffordd i'r parc i weld yr anifeiliaid.





Diolch o waelod calon i aelodau'r staff a ddaeth ar y daith a'r rhai a arhosodd gyda'r deiliaid eraill yn y cartref am gydweithio fel tîm er budd ein deiliaid. Cawsant ddiwrnod i'w gofio.

Y jiráffs a'r pengwiniaid a'n denodd yn gyntaf – pob un yn fywiog a smala.



Mynd yn ein pwysau wedyn o amgylch y parc gan fwynhau gweld yr anifeiliaid, y golygfeydd, yr arogleuon a'r awyr iach cyn dychwelyd i'r ffair bleser dan do am hufen iâ, cacennau a the. Teithio adref wedyn yn fodlon ein byd.

# *Newyddion arall*




## Ebrill

$2^{il}$ – John J
$27^{ain}$ – Glenys

## Mai

$1^{af}$ – Daisy

## Gorffennaf

$12^{fed}$ – Freda

$30^{ain}$ – Jean

.

# Materion Staffio

## Llongyfarchiadau Sarah ar y newydd ddyfodiad

Llongyfarchiadau Sarah ar enedigaeth eich merch, Rebecca.



Dymuniadau gorau i chi a'r teulu i gyd.

## Croeso i Staff Newydd

- Sarah Curtis – Uwch Ofalwraig (Dydd)



- Gareth Evans – Gofalwr (Dydd a Nos)



- Carol Leisching – Gofalwraig (Dydd a Nos)





## Gofal Traed

Mae Rosanna a Helen wedi cwblhau cwrs ar driniaethau gofal traed yn ddiweddar. Byddant yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn i ddeiliaid bob pythefnos yn awr.

Os hoffech wneud apwyntiad, siaradwch â Rosanna neu Helen.

.



## *Dan y llifolau*

### Cofio'r 1970au

### Beth yw eich atgofion chi o'r 1970au?

Yn yr un flwyddyn ag yr agorodd Glyn Nest ei ddrysau fel cartref gofal, wele rai dyddiadau a digwyddiadau allweddol eraill i'w dwyn i gof o bosib.

Ionawr – Bu farw'r llenor a'r cenedlaetholwr pybyr D J Williams, Rhydcymerau.

Chwefror – Yr anghymharol Tom Jones yn y siartiau gyda'r gân "*Without Love*".

Mawrth – Stormydd eira yn ysgubo ar draws Prydain – y gwaethaf er 1963.

Ebrill – Bu farw Daniel Brinley 'Bryn' Evans, y chwaraewr rygbi rhyngwladol a'r gŵr a fu'n chwarae rygbi'r undeb i Abertawe.

Mai – Llosgwyd Pont Britannia, y bont reilffordd dros afon Menai. Adeiladwyd hi gan Robert Stephenson 120 o flynyddoedd ynghynt.

Mehefin – Yr Etholiad Cyffredinol. Pobl ifanc 18 mlwydd oed yn pleidleisio am y tro cyntaf wedi i'r oedran pleidleisio gael ei ostwng o 21.

Gorffennaf – Darlledwyd y rhaglen liw gyntaf yn y Gymraeg gan BBC Cymru o Eisteddfod Llangollen.

Awst – Canlyniadau pêl-droed – Port Vale yn curo Abertawe 0 2- 0.

Medi – Agor cartref Glyn Nest.

Hydref – Darganfod olew ym Môr y Gogledd oddi ar arfordir yr Alban.

Tachwedd – Gweithwyr British Leyland yn mynd ar streic.

Rhagfyr – David Broome (CBE) yn ennill Pencampwriaeth Neidio Ceffylau'r Byd a gwobr Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn BBC Cymru. Aled Jones yn cael ei eni yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Nid oedd arian degol wedi cael ei gyflwyno eto, ond diddorol yw cymharu prisiau o'r cyfnod yn ein harian ni heddiw.

| | |
|---|---|
| Cyflog wythnos ar gyfartaledd | £32 |
| Torth o fara | 9c |
| Peint o laeth | 5c |
| Peint o gwrw | 30c |
| Litr o betrol | 6c |
| Tocyn sinema | 45c |



# Hanes Cartref Gofal y Bedyddwyr Glyn Nest

## Gan Caroline Jones – Gofalwraig ddydd

Adeilad urddasol a adeiladwyd ar gyrion tref Castellnewydd Emlyn yw Glyn Nest. Saif gan wynebu'r hen dref sydd wedi llwyddo i gadw ei hunaniaeth a'i swyn hynafol er gwaethaf pwysau bywyd modern ein hoes.

Edrych dros y dyffryn ac adfeilion y castell, a adeiladwyd yn gyntaf tua 1240, a wna'r cartref.



Dyma un o'r ychydig gestyll o'r cyfnod a adeiladwyd o garreg. Wedi canrifoedd lawer o ymrafael chwythwyd y castell i fyny yn 1700 ac erys yr adfeilion yr un i bob pwrpas hyd at y dydd heddiw.

Bu Glyn Nest yn greiddiol i fywyd y dref erioed. Meddygon oedd perchnogion y tŷ o'r 1920au hyd at 1970 a byddent yn cynnal eu meddygfeydd o ystafell yn rhan flaen y tŷ.

Bu Dr Penry yn byw ac yn gweithio yma am flynyddoedd lawer. Dywed un o'n deiliaid, Myra Jones, i'w dau fab gael eu geni gan Dr Penry. Fel gwraig fferm brysur cofia Myra hefyd fel y byddai'n dosbarthu llaeth i'r tŷ bob dydd.

Gall nifer o drigolion y dref ddwyn i gof y cwrt tennis preifat yng ngardd gefn y tŷ.



Pa well cefnlen i luniau priodas na ffrynt mawreddog y tŷ? Gwyddai'r ffotograffydd Joshua Eynon na ellid cael gwell, a bu'n tynnu lluniau priodas i'r bobl leol o'r fan hon am flynyddoedd. Rhaid bod Glyn Nest yn ymddangos mewn sawl albwm priodas hyd at y dydd heddiw.



Yn 1970, gwerthwyd y tŷ i Undeb Bedyddwyr Cymru er mwyn darparu llety preswyl i wragedd gweinidogion y Bedyddwyr. Bu'n fenter lwyddiannus, a gall nifer o'r trigolion lleol gofio ymweld â'r cartref i ganu mewn nosweithiau hwyrol neu fynychu'r dosbarthiadau crefft a gweu.



Bu'r safonau yn uchel iawn erioed a byddai pawb, yn ddeiliaid ac ymwelwyr yn sicrhau eu bod bob amser wedi gwisgo'n drwsiadus a smart.

Gydag amser gwelwyd y cartref yn ehangu ac yn 1992 ac eto yn 2009 codwyd estyniadau er mwyn cydymffurfio â safonau modern. Rhedir y cartref yn broffesiynol heddiw, ond ceidw werthoedd yr eglwys Fedyddiedig ac mae iddo le creiddiol ym mywyd Castellnewydd Emlyn o hyd.

# *Ac yn olaf…*

## Parchedig Irfon Roberts

### Cadeirydd Bwrdd Rheoli Glyn Nest

Wel wir, anodd credu fel mae'r blynyddoedd wedi gwibio heibio! Yn '69 y dechreuais weinidogaethu mewn clwstwr bychan o eglwysi nid nepell o Lanbedr Pont Steffan.

Y flwyddyn ganlynol agorwyd Glyn Nest. Cofiaf yn dda am y cyffro a'r disgwyl eiddgar yn rhengoedd Undeb Bedyddwyr Cymru yr adeg honno. Onid arbrawf ydoedd wedi'r cwbl? Ond arbrawf a fu'n dra llwyddiannus. Mae Glyn Nest wedi tyfu a datblygu i'r hyn ydyw heddiw, sef teulu byw, ffyniannus o ddeiliaid a staff sy'n fawr eu gofal o'i gilydd.

Petai'r muriau'n gallu siarad onid cyfleu hanesion didwyll am gariad a thosturi a wnaent? A phetai rhywun wedi dweud wrthyf yn '69 y byddai gennyf innau ran amlwg i'w chwarae yn natblygiad y cartref byddai'n anodd gennyf gredu hynny. Ond ni ŵyr neb beth yw bwriadau Duw ar eu cyfer.

Bûm yn ymwneud ychydig â'r cartref yn ystod cyfnod fy ngweinidogaeth yn y Graig, Castellnewydd Emlyn. Gweinidogion doethach a mwy profiadol oedd wrth y llyw bryd hynny – fy rhagflaenydd yn y Graig, y Parchedig J. Clement Davies a'r Parchedig W. H. Rowlands, gweinidog Blaenwaun a rhagflaenydd trysorydd cyfredol Glyn Nest, yr ymroddedig Parchedig Gareth Morris sydd wedi bod mor allweddol i lwyddiant y cartref.

Ers dychwelyd i'r ardal hon o Frynaman ddwy flynedd ar bymtheg yn ôl mae fy nghariad at y cartref wedi tyfu hyd yn oed yn fwy a chredaf yn ddiysgog mai bwriad Duw oedd inni sefydlu'r cartref hwn. Mae'r ffaith iddo oroesi a ffynnu gyhyd yn ddim byd llai na gwyrth i'm tyb i gan mai pobl, yng ngolwg rhai, sy'n llawn bwriadau da ond amhroffesiynol sy'n ei redeg.

Ni allaf honni fod gennyf unrhyw graffter busnes. Er hynny, mae'r ffeithiau'n adrodd bod y cartref yn cael ei redeg yn dda a bod ganddo gyfleusterau cymeradwy. Mae wedi goresgyn sawl anhawster yn nhreigl y blynyddoedd ac rydym yn haeddiannol falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym hyd yn hyn.

Fodd bynnag nid yw'n fwriad gennym laesu dwylo. Mae lle i wella bob amser ac mae newidiadau ar waith – i'w datgelu yng nghwrs amser.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r staff presennol a'r rhai a fu'n gweithio yma yn y gorffennol am eu hymroddiad a'u teyrngarwch. Dim ond oherwydd eu llafur hwy a llafur ein brodyr a'n chwiorydd yn yr eglwys Fedyddiedig ledled Cymru, a gyfrannodd mor hael at redeg y cartref, y cyrhaeddom y garreg filltir hon. Rydym ni, aelodau'r Pwyllgor Tŷ a Chyfarwyddwyr y Cartref, yn diolch i Dduw nid yn unig am y weledigaeth gychwynnol ond am gynnal ein brwdfrydedd a'n penderfyniad ar hyd y daith.

Gadewch i ni barhau i gydweithio er mwyn i ni gael achos i ddathlu mewn pum mlynedd eto. Rwyf innau a'm gwraig, na allwn gyflawni fy nyletswyddau niferus heb ei chefnogaeth gyson, yn ymuno gyda chi i ddymuno pen-blwydd hapus iawn i Glyn Nest!

Parchedig Irfon Roberts

## Gofal Seibiant

Rydym yn deall……



Mae Glyn Nest yn cynnig sawl ffordd wahanol i ofalwyr gael seibiant o'u dyletswyddau gofal. Pa un ai am ddiwrnod, wythnos, neu gyfnod byr gall Glyn Nest ddarparu amgylchedd diogel a chymorth 24 awr i aelod o'ch teulu.

Mae gofal seibiant yn rhoi tawelwch meddwl i chi y byddwn yn gofalu am eich anwyliaid, wrth i chi gael seibiant i adnewyddu eich nerth.

Mae gan Glyn Nest ystafell seibiant tymor byr neilltuedig â chyfleusterau en-suite, a gall hefyd gynnig llety am gyfnodau hwy os oes angen.

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â: Jayne Evans i gael ymgynghoriad preifat ynghylch argaeledd a gofynion.

**Cysylltu â Glyn Nest**

Jayne Evans – Rheolwraig Gofrestredig

Ffon: 01239 710 950

01239 710 503